

Llythyr gan y Prif Weithredwr, Arweinydd ac Aelod Arweiniol

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn y swydd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol. Mae'r rôl hon yn wag oherwydd dyrchafiad deiliad y swydd bresennol.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno a'm Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd yn cynnwys 7 Prif Swyddog ac sydd wedi bodoli ers Ebrill 2019 a bydd y swydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Mae'r Arweinydd, Deilydd Portffolio a'r Prif Weithredwr yn gweld hwn fel swydd allweddol ac yn hanfodol ar gyfer adeiladu ar lwyddiant a datblygu a cryfhau ein gwasanaethau er budd plant, phobl ifanc a thrigolion Wrecsam.

Byddwch yn arwain ar bortffolio'r Gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion ledled Wrecsam ac yn dal rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ogystal â chyfrannu'n weithredol i'n nodau arweinyddiaeth gasgliadol er mwyn darparu gwelliannau hirdymor a gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae eich portffolio yn cynnwys rhai o'n gwasanaethau rheng flaen fwyaf gweledol a phwysig. Byddwch yn cynghori ein Prif Weithredwr, a'n Haelodau Etholedig ar faterion gofal cymdeithasol allweddol yn ogystal ag arwain ar rai o'n gwaith newid pwysicaf, a phrosiectau partneriaeth eraill. Bydd disgwyliadau'n uchel o fewn a thu allan i'r Cyngor ond bydd atebolrwydd a chefnogaeth gref yn cael ei ddarparu'n gyfunol.

Byddwch yn gallu dangos sgiliau arweinyddiaeth ardderchog a gweladwy, yn gyfathrebwr medrus gyda llwyddiant blaenorol o ddylunio a darparu gwasanaethau i gwsmeriaid a rhaglenni newid arloesol a gwell. Rydym yn chwilio am rywun gyda gwybodaeth a sgiliau ardderchog yn y maes, neu sgiliau mewn sefydliad cwsmer cymhleth a thebyg y gellir eu trosglwyddo. Os ydych yn llwyddiannus byddwch yn rhan o dîm o weision sifil ymrwymedig sy'n gweithio ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i phreswylwyr.

Credwn fod Wrecsam fel lleoliad, a'r Cyngor fel sefydliad, yn lle gwych i fod, ac yn gyfle i chi ddatblygu eich sgiliau a bod yn rhan o'n dull Un Cyngor o adeiladu ar lwyddiant sefydliad deinamig sy'n datblygu.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn ddiffuant

Cyng. Mark Pritchard

Ian Bancroft

Cyng. Joan Lowe / Cyng. Andrew Atkinson



Arweinydd



Prif Weithredwr



Aelod Arweiniol Portffolio

